# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 3

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 4

GORFODI RHEOLAETHAU SY'N YMWNEUD AG ADEILADAU RHESTREDIG

*Hysbysiadau gorfodi a ddyroddir gan awdurdodau cynllunio*

PROSPECTIVE

### 126 Effaith rhoi cydsyniad adeilad rhestredig ar hysbysiad gorfodi

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os rhoddir, ar ôl i hysbysiad gorfodi gael ei ddyroddi, gydsyniad adeilad rhestredig o dan adran 89(2)—

(a) sy'n awdurdodi unrhyw waith y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef sydd wedi ei gyflawni yn groes i adran 88, neu

(b) sy'n awdurdodi gwaith sy'n golygu torri amod y rhoddwyd cydsyniad blaenorol yn ddarostyngedig iddo.

(2) Mae'r hysbysiad yn peidio â chael effaith (neu nid yw'n cymryd effaith) i'r graddau y mae'n—

(a) ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd sy'n anghyson â'r awdurdodiad i'r gwaith, neu

(b) ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r amod.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 126 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(3) Nid yw'r ffaith bod hysbysiad gorfodi wedi peidio â chael effaith yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn rhinwedd yr adran hon yn effeithio ar atebolrwydd unrhyw berson am drosedd mewn cysylltiad â methiant blaenorol i gydymffurfio â'r hysbysiad (gweler adran 133).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 126 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 126 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.